


Amodau Trwydded Asiant

Mesurau Diogelu Busnes



Mae'r amod "Diogelu Busnes" yn ofyniad y bydd angen i **BOB** asiant sy'n drwyddedig gyda Rhentu Doeth Cymru ei fodloni er mwyn cadw at amodau ei drwydded. Mae'r amod hwn yn gofyn i'r asiant drefnu:

- **Diogelwch Arian Cleientiaid (Ile caiff arian cleientiaid eu trafod),**
- **Yswiriant Indemniad Proffesiynol (£100,000 neu £500,000), ac**
- **Aelodaeth o Gynllun Unioni Camweddau sydd wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth.**

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i'r gofyniad hwn y gellir gwneud cais amdanynt. Cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru os ydych yn credu bod gennych hawl i gael eich eithrio.

Mae'r eithriadau diogelu busnes wedi'u rhestru isod a dim ond ar ôl i Rhentu Doeth Cymru gynnal asesiad risg a barnu bod y risg i landlord(iaid) a thenantiaid y cleient yn isel y byddant yn cael eu cymeradwyo.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod neu i ddiwygio eithriad i'r drwydded diogelu busnes ar unrhyw adeg cyn, yn ystod neu ar ôl adnewyddu tymor y drwydded.

Amgylchiad Asiant	Gofyniad
Asiant sy'n rheoli eiddo ar gyfer aelodau'r teulu yn unig (teulu fel y'i diffiniwyd o dan Adran 258, Deddf Tai 2004) lle <i>Mae cyfanswm nifer yr eiddo yn llai na 5 ac mae cyfanswm y tenantiaethau i bob eiddo yn llai na 5.</i>	Mae'n ofyniad i'r asiant gadarnhau perthynas deuluol â Holl landlordiaid. Os yw'n Gorff Corfforaethol, yn achos: Cwmni – pob Cyfarwyddwr Elusen – pob Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth – pob Ymddiriedolwr rhaid eu bod yn perthyn i'r asiant/landlord.
Asiant sy'n rheoli eiddo ar gyfer un trefniant landlord nad yw'n gysylltiedig ynglŷn â 2 neu lai o eiddo	Mae'n ofyniad i'r asiant a Phob Landlord (<i>a enwir yn y cofrestrriad</i>) lofnodi datganiad i gadarnhau na fydd yr asiant yn derbyn unrhyw eiddo ychwanegol a bod y landlord yn rhoi caniatâd i hepgor yr amod diogelu.
Nid yw'r asiant yn gosod ac yn rheoli unrhyw eiddo yng Nghymru ar gyfer landlord (busnes cychwynnol).	Rhaid i'r asiant lofnodi datganiad i gadarnhau nad oes unrhyw eiddo'n cael ei reoli ar gyfer pobl eraill ar hyn o bryd. Bydd angen mesurau diogelu o fewn 6 wythnos i ddechrau gweithgareddau gosod a rheoli.
Caiff yr eithriad hwn ei adolygu os bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai arwain at y gofyniad i sicrhau bod y mesurau diogelu busnes yn cael eu hadfer.	
Dylid nodi ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth i Rhentu Doeth Cymru (yr Awdurdod Trwyddedu Sengl) sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac y gwyddoch ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu <i>rydych chi'n</i> ddi-hid ynghylch a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.	

Bydd eich trwydded mewn perygl os na fyddwch yn cadw at amodau eich trwydded.